**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

William Graham AC
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

William.Graham@assembly.wales

15 Rhagfyr 2015

Annwyl William,

**Adolygiad Llysgenhadon Cyllid yr UE o Gyfleoedd Cyllido a Pholisi'r UE ar gyfer Cymru 2014-2020**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi bod Adroddiad Interim Llysgenhadon Cyllid yr UE "Ewrop yn Bwysig i Gymru: Cyfleoedd Cyllido a Pholisi'r UE ar gyfer Cymru 2014-2020" a Grid Rhaglenni Polisi a Chyllid yr UE yn cael eu cyhoeddi.

Penodais y panel o Lysgenhadon Cyllid yr UE (Dr Hywel Ceri Jones, Dr Grahame Guilford a Gaynor Richards MBE) ar 3 Rhagfyr 2014 i helpu i hyrwyddo a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno drwy raglenni cyllid yr UE a reolir yn uniongyrchol. Cafodd y penodiadau eu gwneud mewn ymateb uniongyrchol i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar gyfleoedd cyllid yr UE 2014-2020, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014. Roedd yr adroddiad yn nodi'r angen i ymwneud â rhaglenni'r UE sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol yng Nghymru, a'u hyrwyddo ymhellach.

Mae'r adroddiad interim, sydd bellach ar gael yma http://gov.wales/funding/eu-funds/eu-programmes/?lang=cy, yn nodi ystyriaethau ac argymhellion cychwynnol y Llysgenhadon rhai ohonynt maen nhw wedi trafod gyda'r Pwyllgor pan cwrddon nhw â chi ar 23 o Fedi. Eu bwriad yw archwilio rhai o'r meysydd hyn ymhellach yn ystod gweddill eu cyfnod yn y swyddi gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad terfynol i mi yn y gwanwyn. Mae'n amlwg iawn bod angen i unrhyw ymdrech i gynyddu rhaglenni ac adnoddau'r UE i'r eithaf gael cyfranogiad gweithredol pob sector yng Nghymru. Rwyf hefyd wedi gofyn yn benodol i'r Llysgenhadon ymchwilio i rolau a gofynion partneriaid, i roi sylwadau ar hynny a nodi'r hyn y gall y Llywodraeth ei wneud i'w cynorthwyo i gael gafael pellach ar gyfleoedd yr UE.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r tri Llysgennad am y gwaith a'r ymgysylltu maent wedi'u gwneud, sydd wedi cynnwys trafodaethau â nifer o Weinidogion a swyddogion yn ogystal â chyda llawer o randdeiliaid eraill yng Nghymru a'r tu hwnt. Rydw i hefyd yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Menter a Busnes am eu ymgysylltiad i helpu i roi gwybod ac hwyluso gwaith y Llysgenhadon. Byddaf yn ystyried argymhellion cychwynnol a therfynol y Llysgenhadon gyda chydweithwyr dros yr wythnosau nesaf a byddaf yn hysbysu'r Aelodau'r Pwyllgor yn unol â hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i roi diweddariad byr i chi ar gynnydd rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014-2020. Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers y cytunodd y Comisiwn Ewropeaidd ar y rhaglenni, ac yn ystod yr amser hwn rydym wedi buddsoddi £425 miliwn o gyllid yr UE, sef bron chwarter o gyfanswm dyraniad cyllid yr UE i Gymru. Mae'r llwyddiant hwn yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fwrw ati'n syth i roi'r rhaglenni ar waith. Bu hyn yn bosibl trwy'r enghreifftiau gwych o weithio mewn partneriaeth a welwyd trwy Gymru, a'r cynigion arloesol sydd wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Bu cyfle i dathlu'r buddsoddiadau hanfodol hyn i economi Cymru a'r farchnad lafur mewn digwyddiad i randdeiliaid y bûm yn bresennol ynddo yn gynharach y mis hwn yn Abertawe. Mae'r digwyddiad wedi'i gynnwys mewn fideo sydd ar gael i'w weld trwy dudalen YouTube Llywodraeth Cymru (https://youtu.be/d3flyXuZiUk).

Yn y digwyddiad, roedd yn bleser gen i hefyd gyhoeddi rhestr fer ac enillwyr Gwobrau Cyhoeddusrwydd Cronfeydd yr UE yng Nghymru, sy'n cydnabod y sefydliadau hynny sydd wedi mynd gam ymhellach i gyfleu manteision cronfeydd hanfodol yr UE o ran twf a swyddi trwy Gymru.

Yn gywir,



**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business